

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

Cynllunio, Comisiynu a Chydgynhyrchu



Deall y Ddeddf

#DeallyDdeddf

www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

“Mae angen i fodolau comisiynu newydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gydnabod cyfraniad ac adnoddau sylweddol unigolion a chymunedau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, gan eu cefnogi i gymryd rhan weithgar yn y gwasanaethau a thu hwnt i wella canlyniadau iechyd a llesiant, a chefnogi newid cynaliadwy.”

(New Economics Foundation)

Er mwyn rhoi **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** ar waith mae'n ofynnol gwneud newidiadau sylweddol iawn i'r ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cynllunio, eu dylunio, eu comisiynu a'u darparu.

Mae Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru wedi pwysleisio'r canlynol: “Mae comisiynu gofal cymdeithasol yn golygu llawer mwy na chynghorau'n trefnu a phrynu gwasanaethau. Mae'n ymwneud â sut mae cynghorau, y GIG a darparwyr eraill yn rhagweld newid, yn cynllunio gwasanaethau i fodloni galw'r dyfodol ac yn defnyddio'r arian sydd ar gael yn effeithiol¹.”

Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio **cydgynhyrchu fel** “y cysyniad o alluogi pobl a chymunedau i chwarae rhan lawn yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan werthfawrogi eu cryfderau a theilwra eu dulliau gweithredu yn unol â hynny... yn y bôn mae a wnelo cydgynhyrchu â gwneud pethau 'gyda' phobl yn hytrach nag 'i' bobl².”

Yng Nghymru, mae'r cysyniad o gydgynhyrchu wedi bod yn elfen amlwg yn y prif gynlluniau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus gwahanol. Er enghraifft, ym maes iechyd, un o egwyddorion **gofal iechyd darbodus** yw “sicrhau iechyd a llesiant, gydag aelodau'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal drwy gydgynhyrchu” a dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** mae cynnwys pobl yn rhan annatod o'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'n un o'r prif egwyddorion hefyd sy'n sail i **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf'). Mae manylion am brif egwyddorion y Ddeddf ar gael yn y **Canllaw Adnoddau Egwyddorion**.

Mae'r papur hwn yn rhoi arweiniad ar yr adnoddau a'r wybodaeth am gynllunio a chomisiynu sy'n ategu'r broses o weithredu'r Ddeddf gan gyfeirio'n benodol at y rhai y mae egwyddorion cydgynhyrchu yn dylanwadu arnynt.

¹ ADSS Cymru (2015) Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.
² Swyddfa Archwilio Cymru (2015) Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015.

Beth sydd yn yr adran hon?

- Amlinelliad o'r hyn y mae'r Côt Ymarfer yn ei ddweud am gynllunio, comisiynu a chydgynhyrchu mewn perthynas â Rhan 2 y Ddeddf
- Rhagor o wybodaeth a dolenni i adnoddau dysgu perthnasol
- Cymysgedd o ddeunyddiau gwahanol gan gynnwys cyflwyniadau, ymchwil ac adroddiadau gwerthuso, briffiau, fideos a dolenni i wefannau defnyddiol eraill



Beth mae'r Côt Ymarfer yn ei ddweud am gynllunio, comisiynu a chydgyhyrchu?

Y Côt Ymarfer a chanllawiau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Côt').

Mae'r Côt yn nodi bod rhan o'r ddyletswydd i hybu llesiant yn golygu rhoi trefniadau cadarn ar waith ar gyfer annog y broses o gynnwys pobl. Golyga hyn ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau ac allbwn, er mwyn sicrhau bod sefydliadau a threfniadau'n cael eu cynllunio gan bobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalmwyr sydd angen cymorth, ac yn cael eu harwain ganddynt. Mae hyn yn berthnasol ar lefel unigol, sefydliadol a strategol.

Mae'r Côt yn cyfeirio at **gydgyhyrchu** fel "ffordd o weithio lle mae ymarferwyr a phobl yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal i gynllunio a darparu gofal a chymorth", ac eglura sut mae'r dull hwn yn:

- Cydnabod pobl fel asedau sydd â chyfraniad cadarnhaol i'w wneud at gynllunio a gweithredu gwasanaethau
- Cefnogi a rhoi grym i bobl gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a gweithredu gwasanaethau
- Meithrin gallu a rhoi grym i bobl ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu llesiant eu hunain, a chyfrannu at y llesiant hwnnw
- Sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â phobl i gyflawni canlyniadau personol ar lefel unigol a gwasanaeth
- Cynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio canlyniadau ar gyfer gwasanaethau
- Pylu gwahaniaethau rhwng darparwyr a phobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalmwyr sydd angen cymorth
- Hwyluso yn hytrach na darparu gwasanaethau

Yn y cyd-destun hwn, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol:

- Roi trefniadau tryloyw ar waith lle mae pobl yn bartneriaid cyfartal o ran cynllunio a gweithredu gwasanaethau
- Sicrhau bod y trefniadau hyn yn cynnwys paneli lleol a rhanbarthol o gomisiynwyr, dinasyddion a darparwyr, yn gweithio gyda'i gilydd i lywio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl sydd angen gofal a chymorth
- Adrodd ar yr hyn y maent yn ei wneud i gefnogi cydgyhyrchu yn adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr

Dan Adran 14 y Ddeddf mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol. Mae'n **rhaid** i'r asesiad hwn nodi hefyd:

- I ba raddau nad yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu
- Ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol er mwyn diwallu'r anghenion hynny
- Ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol er mwyn darparu'r gwasanaethau ataliol
- Gwasanaethau sy'n ofynnol yn Adran 15 o'r Ddeddf
- Sut y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Adran 15 y Ddeddf yn rhoi **dyletswydd** ar awdurdodau lleol i ddarparu lefel ac amrywiaeth o wasanaethau ataliol ac mae'r Côt hwn yn cydnabod bod y pwyslais cynyddol ar ymyrryd yn gynnar ac atal yn ei gwneud yn ofynnol i gydnabod yr adnoddau hynny sydd eisoes i'w cael yn y gymuned. Yma, nod egwyddorion ac arferion cydgynhyrchu yw:

“Adeiladu'r economi graidd leol o bobl sy'n cyfnewid eu sgiliau, eu diddordebau a'u hamser. Byddant yn helpu i newid y pwyslais tuag at gymorth a grëir trwy gydfuddiannau ac ymrwymiad cyffredin pobl sydd wedi buddsoddi ynddo.”

Mae'r Côt yn pwysleisio pwysigrwydd **“sichrau dull sy'n seiliedig ar gydgynhyrchu ar lefel unigol, sefydliadol a strategol”**. Mae'n nodi bod yn “rhaid i bobl fod yn rhan o'r broses o **gynllunio a darparu** gwasanaethau ac yn y broses o lunio **asesiadau poblogaeth** ac y bydd **dull cydgynhyrchu** yn cyfrannu amrywiaeth eang o brofiad, sgiliau a gwybodaeth i'r prosesau hyn.”

Am ben hynny, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol hefyd:

“Sichrau bod darparwyr y maent yn comisiynu neu'n caffael gwasanaethau ganddynt yn annog a galluogi cyfraniad pawb at gynllunio'r gwasanaethau a sut y byddant yn gweithredu i gyflawni canlyniadau personol, a bod darparwyr yn cynnwys pobl yn y gwerthusiad a'r adolygiad.”

Mae'r Côt yn cydnabod:

“Mae polisi gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ceisio sichrau mwy o amrywiaeth yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu trwy gwmnïau cydfuddiannol, cyflawni gwaith yn fewnol, comisiynu ar y cyd a pherchnogaeth gymunedol. Mae'n golygu rhoi grym i bobl a chymunedau. Mae hyn yn adlewyrchu amgylchedd mwy cymhleth, ac mae angen arweinyddiaeth gref a newid mewn diwylliant ac ymarfer.”

Nodir yr egwyddorion hyn yn y ddogfen **Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol.**

Datblygwyd canllawiau ar wahân mewn perthynas â dyletswydd Adran 16 i **hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.**

Diben y canllawiau hyn yw darparu adnoddau a gwybodaeth am **gynllunio** a **chomisiynu**, sy'n ategu'r broses o weithredu'r Ddeddf, gan gyfeirio'n benodol at y rhai sy'n defnyddio egwyddorion **cydgynhyrchu**. Dylid ei darllen ar y cyd â'r canlynol:

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
- **Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) (Cymru) 2015**
- **Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015**
- **Pennod 2 (Asesiad poblogaeth), Pennod 3 (Gwasanaethau ataliol) a Phennod 4 (Mentrau cymdeithasol)**



Lle mae cael gafael ar ragor o wybodaeth ac adnoddau?

Mae'r adran ganlynol yn cynnwys adnoddau a gwybodaeth am:

- Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol
- Datblygu asesiadau poblogaeth yng Nghymru
- Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Dewis Cymru – gwefan iechyd a gofal cymdeithasol Gymreig ar gyfer dinasyddion
- Adnoddau amrywiol ar gydgyhyrchu a chomisiynu

Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol** ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, a'r hyn y dylai pobl ei ddisgwyl er mwyn byw bywydau bodlon. Maen nhw'n gosod y cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau er mwyn hyrwyddo llesiant pobl yng Nghymru sydd angen y gwasanaethau hynny a helpu i ddarparu mwy o dryloywder ar y cwestiwn a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn gwella canlyniadau llesiant i bobl.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio **taflen wybodaeth** sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfleoedd a'r berthynas rhwng **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Mae'r daflen wybodaeth yn rhoi trosolwg cryno o'r deddfau a sut gallan nhw gydweithio'n ymarferol, e.e. wrth asesu llesiant yr ardal leol, gweithio mewn partneriaeth, a chynllunio mewn ymateb i'r asesiadau.

Comisiynwyd papur gwyntyllu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Strange Bedfellows – Or Cut from the Same Cloth?** (2016), gan Netherwood Sustainable Futures ar y cysylltiadau rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ei nod yw rhoi gwybod i'r sawl sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau a chorfforaethol o fewn awdurdodau lleol a'u partneriaid am y materion allweddol sydd angen iddyn nhw eu hystyried wrth ymateb i'r ddeddfwriaeth, e.e. wrth baratoi ar gyfer cynllunio a gofynion llesiant, asesiadau o anghenion a gwaith cydweithredol gan arwain at y gofynion penodol sy'n codi o'r ddwy gyfres o ddeddfwriaeth erbyn Ebrill 2017. Nid yw'r papur yn darparu canllaw i'r un o'r deddfau, ond mae'n cynnig cymhariaeth sylfaenol sy'n cynnwys: cwmpas cyffredinol y ddwy Ddeddf; pwy mae'r deddfau'n eu cynnwys; beth maen nhw'n ei olygu o safbwynt strategaethau; y sail dystiolaeth sydd ei hangen; y goblygiadau i'r sefydliadau corfforaethol dan sylw; y byrddau gwasanaeth cyhoeddus a gweithio mewn partneriaeth; a'r fframwaith atebolrwydd.

Asesiadau poblogaeth a'r catalog data

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad grŵp technegol ar **asesiadau poblogaeth**.

Mae Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu pecyn cymorth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adroddiadau ar asesiadau poblogaeth sy'n ofynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Maen nhw wedi bod yn cydweithio â phartneriaid llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, byrddau iechyd a'r trydydd sector er mwyn nodi pa gefnogaeth a chymorth sydd eu hangen arnynt er mwyn eu helpu i fodloni'r gofynion a nodwyd yn y Côd Ymarfer a'r rheoliadau.

Ar ran yr SSIA, mae Uned Ddata Cymru wedi rhyddhau **catalog data** fel rhan o'r Pecyn Cymorth ar Asesiadau Poblogaeth er mwyn helpu awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gyda'u gofynion statudol dan y Ddeddf.

Mae'r catalog yn cynnig casgliad o'r data sydd ar gael i ddefnyddwyr er mwyn helpu i ddatblygu asesiadau poblogaeth gan gydnabod yr un pryd y bydd anghenion yn amrywio rhwng ardaloedd. Cafodd ei ddatblygu ar y cyd â phartneriaid mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

Mae cyflwyniad Phil Diamond **Population Needs Assessment – Emerging Data** (Gorffennaf 2016) i Bartneriaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gwent Fwyaf yn rhoi enghraifft o gasglu data mewn un maes partneriaeth sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, anabledau iechyd a chorfforol, anabledau dysgu, iechyd meddwl, camdriniaeth ddomestig a throseddau rhyw.

Mae Llais Cymuned Conwy wedi cynhyrchu llyfryn defnyddiol, **Technegau am Ymrwymiad ac Ymgysylltiad**, y gellir ei ddefnyddio wrth gynllunio ymgynghoriadau cyhoeddus a gweithgareddau ymgysylltu neu gyfranogi.

Mae cyflwyniad gan Sally McManus (2016), **Measuring Well-being**, yn cynnwys data cymharol ar lesiant ar draws gwahanol wledydd yn Ewrop.

Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae **Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol** wedi'i sefydlu er mwyn hyrwyddo arferion gorau wrth gomisiynu a chaffael ar gyfer iechyd, gofal a llesiant ledled Cymru.

Mae'r bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru a chyrrff darparu, ac mae ganddo ran ganolog yn y gwaith o ddatblygu'r weledigaeth a phennu cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy.

Mae'r bwrdd yn cynghori ar yr adnoddau sy'n ofynnol er mwyn darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant effeithiol a chynaliadwy a bydd yn cynorthwyo gyda'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau llywodraeth genedlaethol a lleol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn cael cymorth gan fforwm darparwyr cenedlaethol, a daw cyfranogwyr o'r sector annibynnol a'r sector gwirfoddol. Mae gan y fforwm ran allweddol yn y gwaith o helpu i nodi'r heriau a'r rhwystrau o ran darparu gwasanaethau effeithiol o safbwynt darparwyr gofal.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan **Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru)** ac o **SSIA**.

Mae gwaith y bwrdd yn cyd-fynd hefyd â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau eraill gan gynnwys Cyngor Gofal Cymru sy'n eistedd ar y bwrdd.

Mae'r diweddaraf ar waith y Bwrdd yn ystod 2016-17 **ar gael yma**.

Cydgynhyrchu a chomisiynu

Mae yna ffyrdd gwahanol y gall comisiynwyr ystyried cyflwyno cydgynhyrchu i wasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft:

- Drwy **gomisiynu ar gyfer cydgynhyrchu** – pan fo comisiynwyr yn ei gwneud yn ofynnol i egwyddorion cydgynhyrchu gael eu hadlewyrchu yn y gwasanaethau y maen nhw'n eu prynu. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Côt yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y darparwyr y maen nhw'n comisiynu gwasanaethau ganddynt yn annog a galluogi'r broses o gynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau ac yn y ffordd y byddant yn gweithredu er mwyn cyflawni canlyniadau personol. Disgwylir i ddarparwyr gynnwys pobl hefyd yn y broses o werthuso ac adolygu prosesau.
- Drwy **gydgynhyrchu comisiynu** – pan fo pobl yn cael eu cynnwys yn y broses gomisiynu o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cynnwys bod yn rhan o'r broses asesu (boed yn unigol neu fel rhan o'r asesiad poblogaeth ehangach), gan gytuno ar yr hyn sydd angen newid er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau wella bywydau pobl, cynllunio gwasanaethau ar y cyd a chymryd rhan mewn adolygiadau a gwerthusiadau. Yn yr enghreifftiau hyn, mae'r comisiynwyr eu hunain yn rhan o'r broses gydgynhyrchu ac maen nhw'n cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr yn y gwaith comisiynu o'r cychwyn cyntaf. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Côt yn pwysleisio bod yn rhaid i bobl gael eu cynnwys yn y gwaith o lunio'r asesiad poblogaeth ac yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn ddewisiadau 'naill ai/neu'. Mae'n ofynnol cael dull system gyfan ar gyfer cydgynhyrchu, sydd, fel y mae'r Côt yn pwysleisio, angen camau cadarnhaol ar lefel unigol, cymunedol, ar lefel gwasanaeth, yn sefydliadol ac yn strategol.

Mae adroddiad gan y **New Economics Foundation** ar **Commissioning for Outcomes and Co-production** (2014) yn cynnig model ar gyfer cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar gomisiynu ar gyfer canlyniadau, ac yn hyrwyddo cydgynhyrchu a gwerth cymdeithasol. Mae'r adroddiad **cryno** yn cynnwys tabl defnyddiol ar y gwahaniaeth rhwng comisiynu confensiynol a dull yr NEF. Mae'r gymdeithas wedi datblygu **fframwaith hunanasesu** hefyd.

Mae **Dewis Cymru** yn wefan gofal cymdeithasol a llesiant Cymreig ar gyfer y cyhoedd. Ei nod yw rhoi mynediad i bobl i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn gwneud dewisiadau a chymryd rheolaeth. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys adnoddau ar gyfer Gogledd Cymru, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg, a bydd adnoddau ar gyfer rhannau eraill o Gymru yn cael eu hychwanegu dros dro. Datblygwyd y wefan gan SSIA, Uned Ddata Cymru a grŵp rhaglen Pwynt Mynediad Sengl y Gogledd.

Mae gwybodaeth am Fwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru **ar gael yma**.

Mae **Co-producing Commissioning** yn gyflwyniad – gan yr NEF hefyd – sy'n egluro pam mae cydgynhyrchu yn berthnasol i gomisiynwyr, yr heriau yn sgil hynny i ddulliau comisiynu mwy traddodiadol, ffyrdd ymarferol o ddefnyddio dulliau cydgynhyrchu wrth gomisiynu, awgrymiadau ar ble i ddechrau a sut gall cydgynhyrchu newid rolau a diwylliant.

Mae adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru (2015) **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus** yn cydnabod bod cydgynhyrchu yn cynnig cyfleoedd i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac yn aml maent yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus fabwysiadu dulliau gweithredu hollol wahanol. Disgrifia'r adroddiad – er nad yw'n unigryw i Gymru – sut mae cydgynhyrchu "yn

cyd-fynd yn agos iawn â rhai o'r datblygiadau arloesol mewn gwasanaethau cyhoeddus a ddeilliodd o Gymru yn ystod y ganrif ddiwethaf" ac yn egluro pwysigrwydd cydgynhyrchu fel un o'r prif egwyddorion mewn datblygiadau polisi a deddfwriaeth mwy diweddar.

Mae'r adroddiad **A Wêl a Gred** (2015), a gynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arfer Da Cymru a Chydgynhyrchu Cymru, yn defnyddio mentrau cydgynhyrchu o Gymru ym maes iechyd, gofal cymdeithasol tai a datblygiad cymunedol. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o astudiaethau achos ar gydgynhyrchu gan gynnwys bancio amser, gwasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn, gofal canser, gwerthuso, yr amgylchedd, dulliau sy'n seiliedig ar asedau mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol, gwefan a gydgynhyrchwyd, gweithredu gan ddinasyddion, ailgynllunio gwasanaethau a chonsortiw m comisiynu plant.

Mae'r un olaf yn disgrifio gwaith y **Consortiw m Comisiynu Plant Cymru**, consortiw m o awdurdodau yng Nghymru sy'n cydweithredu er mwyn comisiynu lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Cafodd y bobl ifainc, a oedd yn rhan o'r broses, hyfforddiant ar 'Gomisiynwyr Ifainc' achrededig a chawsant gymryd rhan mewn gweithgareddau comisiynu rhanbarthol a chenedlaethol, fel mapio asedau fel rhan o waith dadansoddi anghenion, datblygu canlyniadau ac arolygon, a chyfrannu at sicrwydd ansawdd a gwerthuso. Mae'r ddogfen *A Wêl a Gred* yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau ar yr achos dros gydgynhyrchu; enghreifftiau o gydgynhyrchu mewn ymarfer; canllawiau a pheccynnau cymorth; a dolenni i rwydweithiau a gwefannau perthnasol yng Nghymru a ledled y DU.

Mae **1000 o Fywydau** yn wasanaeth gwella cenedlaethol ar gyfer y GIG yng Nghymru, a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cynorthwyo sefydliadau ac unigolion i sicrhau'r canlyniadau gofal iechyd mwyaf diogel o'r ansawdd uchaf ar gyfer pobl Cymru.

Mae **Arfer Da Cymru** yn borth ar-lein i arferion da a gwybodaeth gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac mae'n cynnwys adnoddau ar gydgynhyrchu a chomisiynu.

Mae **Cydgynhyrchu Cymru** yn gyfuniad o sefydliadau ac unigolion gwirfoddol a'u nod yw sicrhau mai cydgynhyrchu yw'r prif ddull a ddefnyddir gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae ei wefan yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau, cyflwyniadau a gwybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant.

Mae **Cydgynhyrchu Gofal Iechyd Darbodus: Esboniad** (2014) gan Ruth Dineen yn ystyried manteision cydgynhyrchu wrth gynyddu effaith egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Lluniwyd adroddiad ar **Co-producing Services – Co-creating Health** (2013), gan Mike Spencer, Ruth Dineen ac Andrew Phillips, er mwyn galluogi sefydliadau gofal iechyd a'u timoedd i weithredu ymyriadau'n llwyddiannus i wella diogelwch ac ansawdd gofal yn seiliedig ar ddefnyddio dulliau cydgynhyrchu.

Roedd **Co-production in Mental Health Commissioning** (2015) yn brosiect tair blynedd gan Rethink Mental Illness mewn partneriaeth â phedwar bwrdeistref yn Llundain ac fe'i ariannwyd gan yr Adran Iechyd. Y prif amcan oedd creu model arfer gorau a oedd wedi'i brofi ac a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer defnyddio dulliau cydgynhyrchu yn y broses o gomisiynu gwasanaethau iechyd meddwl. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar wasanaethau ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal, gwasanaethau iechyd meddwl y tu allan i oriau ar gyfer pobl ifainc a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir yn y gwasanaethau troseddau ieuencid. Mae **adnoddau'r wefan** yn cynnwys Canllaw Cychwyn Arni, adroddiadau gwerthuso, crynodeb o'r prif ganfyddiadau, a deunydd fideo.

Mae **Embedding Co-production in Mental Health y Tîm Datblygu Cynhwysiant Cenedlaethol** (2016) yn ceisio darparu fframwaith ar gyfer arweinwyr strategol, comisiynwyr a rheolwyr sy'n gyfrifol am iechyd meddwl i ystyried a gwireddu'r newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol sydd eu hangen er mwyn i gydgyhyrchu fod yn rhan safonol yn y gwaith o gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl. Mae'r fframwaith yn rhan o gyfres o adnoddau sydd wedi eu hanelu at gynulleidfaoedd gwahanol gan gynnwys:

- **Papur sefyllfa** wedi'i anelu at unrhyw un sydd â diddordeb mewn deall yr heriau o ran hybu cydgynhyrchu ym maes iechyd meddwl. Mae'n hynod berthnasol i'r sawl sy'n ymwneud â pholisïau a datblygiad iechyd meddwl, yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau ac ymarferwyr sydd am ymgysylltu â chydgyhyrchu trawsnewidiol a'i ddeall.
- **Canllaw**, *Progressing Transformative Co-production in Mental Health: Some Practical Advice*, ar gyfer pobl â diddordeb mewn gwneud gwaith cydgynhyrchu mewn gwasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, eu sefydliadau ac ymarferwyr sydd am ymgysylltu â chydgyhyrchu trawsnewidiol a'i ddeall.
- **Rhestr wirio o gwestiynau allweddol** i'w hystyried a chymryd cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw weithgaredd cydgynhyrchu, wedi'i anelu at bawb dan sylw.

Mae'r **Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE)** wedi cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau perthnasol, gan gynnwys canllaw cyflym i **Commissioning to Develop and Sustain User-led Organisations** (2010) a **Co-production in Social Care: What It Is and How to Do It** (2015).

Mae **User-led Organisations and Commissioning** (2011) yn adnodd gan y National Skills Academy for Social Care, ac mae'n darparu cyfres o enghreifftiau o arferion da.

Mae **Co-production of Health and Well-being in Scotland** yn darparu astudiaethau achos o'r Alban a Sweden gan gynnwys y rhaglen Family Nurse Partnership, lleihau troseddau a gwella iechyd gan ddefnyddio asedau'r gymuned, a'r dull Esther o ymdrin â gofal iechyd yn Sweden.

Mae gwefan **Canolfan Datblygu Cymunedol yr Alban** yn darparu dolenni i amrywiaeth o adnoddau ar gydgyhyrchu a dulliau seiliedig ar asedau, gan gynnwys **Rhwydwaith Cydgynhyrchu yr Alban**.

Datblygwyd **People Not Process – Co-production in Commissioning** gan Think Local Act Personal mewn ymateb i'r Ddeddf Gofal 2014 yn Lloegr, er y gallai rhai o'r adnoddau fod yn berthnasol yn gyffredinol.

Manylion cyswilt

Cyngor Gofal Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Ffacs: 029 2038 4764
Minicom: 029 2078 0680

Ebost: hyb@cgymru.org.uk
www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/

 [gettheact](#)  [@DeallyDdeddf](#)

© 2017 Cyngor Gofal Cymru

